Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Rhaglen Mesur Plant 2022-2023

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r data a gasglwyd ledled Cymru yn ystod blwyddyn ysgol 2022/23

Fewsiwn 1.0

## Tîm Cynhyrchu

- Llion Davies, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus
- Gavin Collins, Swyddog Cefnogi Prosiect
- Rachel Burton, Uwch Ddadansoddwr Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus
- Cari Evans, Dadansoddwr Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus
- Nathan Lester, Pennaeth Tîm yr Arsyllfa a Dadansoddi Canser
- Rachel Bath, Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus
- Suzanne Wood, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus
- Victoria Kiernan, Nyrs Arwain, Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion
- Katie Allen, Swyddog Cyfathrebu
- Jan Jôb, Uwch Swyddog Gweinyddu ac Adnoddau
- Cyfieithiad gan Testun Cyf

## Manylion Cyhoeddi


| | |
|---|---|
| Teitl: | Rhaglen Mesur Plant 2022-23 |
| Cyhoeddwr: | Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Dyddiad: | 21 Mai 2024 |
| ISBN: | 978-1-83766-394-1 |
| Gwefan: | Rhaglen Mesur Plant Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) |


## Diolchiadau


Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn y rhaglen, gan ganiatáu i ni unwaith eto ddarparu crynodebau data ar lefel Cymru gyfan.



© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu deunydd sydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w nodi. Mae hawlfraint y cynllun, y dyluniad a'r trefniant teipograffyddol yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys


Prif Bwyntiau ....................................................................4
Cyflwyniad ....................................................................5
Dulliau ....................................................................6
*Cynnwys ac Eithrio Carfannau* ....................................................................6
*Newidynnau* ....................................................................6
*Cynrychiolaeth Data* ....................................................................7
*Data Lefel Clwstwr Gofal Sylfaenol* ....................................................................7
*Dadansoddiadau* ....................................................................7
*Cyfyngiadau* ....................................................................8
*Adroddiadau Ymgysylltu a Chanlyniadau* ....................................................................9
Rhan 1: Allbynnau Cyffredinol .................................................................... 11
Cymhariaeth â Lloegr a'r Alban .................................................................... 12
Rhyw .................................................................... 12
*Amddifadedd* .................................................................... 13
*Ethnigrwydd* .................................................................... 15
*Gwledig* .................................................................... 15
Cymariaethau ar Lefel Byrddau Iechyd Lleol .................................................................... 17
Cymariaethau ar Lefel Awdurdodau Lleol .................................................................... 19
Rhan 2: Adroddiadau Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol .................................................................... 24
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr .................................................................... 24
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys .................................................................... 28
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda .................................................................... 32
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe .................................................................... 35
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg .................................................................... 38
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro .................................................................... 42
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan .................................................................... 45
Rhagor o wybodaeth .................................................................... 49
Cyfeiriadau .................................................................... 49

## Prif Bwyntiau

- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol y Rhaglen Mesur Plant (CMP) ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23.
- Cafodd pob plentyn 4-5 oed sy'n mynychu dosbarth derbyn ac sy'n byw yng Nghymru gynnig mesuriadau taldra a phwysau arferol gan dimau nyrsio ysgolion. Adroddir ar y data hwn yn genedlaethol i hwyluso gwyliadwriaeth.
- Ar lefel Cymru gyfan, cyfran y plant â phwysau iach oedd 74.3%, sy'n sylweddol uwch yn ystadegol na'r gyfran cyn y pandemig.
- Ar lefel Cymru gyfan, cyfran y plant a oedd dros bwysau neu'n ordew oedd 13.4% ac 11.4% yn y drefn honno, y ddau yn sylweddol is yn ystadegol na'r gyfran cyn y pandemig.
- Roedd cyfran y plant a oedd yn ordew yng Nghymru yn uwch na'r cyfrannau a adroddwyd ar gyfer Lloegr a'r Alban.
- Roedd plant sy'n byw yn y 'bumed' â'r amddifadedd lleiaf yn ôl cod post y breswylfa yn llawer llai tebygol yn ystadegol o fod yn ordew o gymharu â phob cwintel amddifadedd arall.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol Rhaglen Mesur Plant (CMP) Cymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2022/23. Rydym yn falch o fod yn adrodd ar lefel Cymru gyfan am y tro cyntaf ers 2018/19 cyn y pandemig Covid-19.

Yn dilyn trafodaethau gyda rhanddeiliaid ar ôl rhyddhau adroddiad y llynedd, rydym wedi cadw at yr un cynllun. Bydd Rhan 1 yn crynhoi data lefel Cymru gyfan ac yn darparu cymariaethau rhwng y Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) a'r Awdurdodau Lleol (ALlau). Rhagwelir y bydd yr adran hon yn ddefnyddiol i'r rhai sydd â diddordeb yn y sefyllfa gyffredinol ledled Cymru, megis Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol.

Bydd Rhan 2 yn darparu adroddiadau byr pwrpasol ar gyfer pob BILl a'r ALlau cysylltiedig. Rhagwelir y bydd yr adrannau hyn o fwy o ddiddordeb i sefydliadau lleol, megis y BILlau a'r ALlau perthnasol a allai fod am ddefnyddio'r wybodaeth i fonitro anghenion y boblogaeth ac, o bosibl, gefnogi'r gwaith o gynllunio gwasanaethau. Gall yr adrannau hyn fod o ddiddordeb hefyd i aelodau'r cyhoedd sydd am wybod beth yw'r sefyllfa yn eu cymunedau.

Yn ogystal â'r adroddiad cryno hwn, mae'r canlyniadau llawn, gan gynnwys tablau data, ar gael ar wefan y Rhaglen Mesur Plant yn Rhaglen Mesur Plant Cymru.



© 2023. Provided by Impact on Urban Health licensed via a CC BY-NC-ND 4.0 license

## Dulliau

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â mesuriadau a gymerwyd o blant sy'n byw yng Nghymru sy'n mynychu dosbarth derbyn ac a drodd yn 5 oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Ar gyfer eleni, fe wnaethom ddewis canolbwyntio ar ddychwelyd i ddata lefel Cymru gyfan. Rydym wedi cadw'r allbynnau newydd a dreialwyd y llynedd mewn ymateb i'r adborth gan randdeiliaid a gawsom drwy arolygon ac mewn cyfarfodydd. Mae'r cynhyrchion allweddol hyn yn cynnwys: yn gyntaf, y dadansoddiad o amddifadedd mewn perthynas â gordewdra yn ôl BILl; ac yn ail, y dadansoddiad data ar lefel clwstwr gofal sylfaenol. Mae gwybodaeth fanwl yn esbonio sut y cymerwyd mesuriadau a sut y cafodd data ei gasglu a'i ddadansoddi ar y wefan, gweler y ddogfen y gellir ei lawrlwytho 'Rhaglen Mesur Plant Cymru: hanes, fframwaith deddfwriaethol ac agweddau technegol'. Fodd bynnag, mae'r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb o'r dulliau.

### *Cynnwys ac Eithrio Carfannau*

Mae cofnodion wedi'u cynnwys yn Rhaglen Mesur Plant Cymru 2022/23 os yw'r plentyn yn byw yng Nghymru, yn mynychu ysgol yng Nghymru, os oes ganddo ryw wedi'i gofnodi ac os cafodd ei eni yn y cyfnod rhwng Medi 2017 ac Awst 2018. Mae plant wedi'u heithrio os cawsant eu mesur y tu allan i flwyddyn academaidd 2022/23, os yw eu taldra neu eu pwysau a gofnodwyd yn annhebygol, neu os tynnwyd eu cydsyniad yn ôl. Mae plant hefyd yn cael eu heithrio os na allant sefyll heb gymorth.

### *Newidynnau*

Newidynnau yw nodweddion y plant y gallwn eu harchwilio wrth ddadansoddi data, er enghraifft, 'rhyw'. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae rhyw yn cyfeirio at newidyn deuaidd sydd wedi'i gategoreiddio yn ôl 'bechgyn' neu 'ferched.' Roedd gwledig wedi'i gategoreiddio fel newidyn deuaidd hefyd: 'gwledig' neu 'drefol'. Mae amddifadedd yn cael ei amcangyfrif yn ôl cod post y breswylfa. Mae'r cod post yn mapio i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mesur cymharol sy'n rhestru 1,909 o ardaloedd daearyddol bach yng Nghymru, o'r ardaloedd o amddifadedd lleiaf i'r ardaloedd o amddifadedd mwyaf. Mae'r mynegai yn seiliedig ar 8 parth: cyflogaeth; iechyd; addysg; mynediad at wasanaethau; diogelwch cymunedol; yr amgylchedd ffisegol; tai (gweler gwefan StatsCymru Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion). At ddibenion adrodd canlyniadau yn yr adroddiad hwn, mae'r 1,909 o ardaloedd bach wedi'u grwpio'n gwintelau. Mae ffigurau'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn defnyddio pumedau amddifadedd lleol. Mae pumedau lleol yn wahanol i'r pumedau cenedlaethol gan fod y pum band amddifadedd cyfartal yn cael eu hailgyfrif ar gyfer yr ardaloedd bach o fewn ffiniau pob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol yn y drefn honno. Cyfrifir cymarebau cyfradd drwy rannu canran y plant sy'n ordew yn yr ardal o amddifadedd mwyaf gyda'r ganran yn yr ardal o amddifadedd lleiaf. Mae'r cymarebau cyfradd yn fesur o anghydraddoldeb cymharol o fewn bwrdd iechyd neu yng Nghymru. Mae cymhareb cyfradd fwy yn awgrymu bwlch anghydraddoldeb mwy.

Cofnodir ethnigrwydd yn ôl categorïau a ddiffinnir gan yr ONS (am ragor o wybodaeth, gweler ons.gov.uk) sef: Gwyn; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd; Grwpiau cymysg neu aml-ethnig; Grŵp ethnig arall; Anhysbys. O ystyried y niferoedd isel o blant yn rhai o'r categorïau grwpiau ethnig, adroddwyd y data hwn ar lefel Cymru gyfan yn unig.

## *Cynrychiolaeth Data*

Mae cynrychiolaeth yn cyfeirio at y graddau mae'r data a gasglwyd yn cyfateb i'r garfan gyfan o blant cymwys. Fel arfer, mae'r cyfranogiad ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant yn uchel iawn, ac mae cynrychiolaeth yn peri llai o bryder. Fodd bynnag, wrth i ni adfer o'r pandemig, roedd y cyfranogiad wedi bod yn is mewn rhai ardaloedd fel y nodwyd yn 2021/22. Ar gyfer 2022/23, roedd y cyfranogiad yn foddhaol, gyda >85% ar gyfer pob rhanbarth ALl a >80% ar gyfer pob Clwstwr Gofal Sylfaenol. Felly, mae canlyniadau data crai (y data a gasglwyd heb addasiadau) wedi'u hadrodd ar gyfer pob lefel ddaearyddol.

## *Data Lefel Clwstwr Gofal Sylfaenol*

Gan mai cynllun peilot oedd hwn y llynedd, nid yw'r fethodoleg wedi'i chynnwys yn nogfennau hanesyddol y Rhaglen Mesur Plant sy'n rhagddyddio'r allbwn newydd hwn. Mae Clwstwr Gofal Sylfaenol yn ardal ddaearyddol lle mae mwy nag un Practis Cyffredinol (GP) yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu rhai gwasanaethau sy'n berthnasol i anghenion eu poblogaeth. Mae data Clystyrau Gofal Sylfaenol wedi'u hadeiladu o lefelau daearyddol bach o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae'r LSOAs hyn wedi'u mapio i'r clwstwr lle mae'r nifer uchaf o breswylwyr wedi'u cofrestru i bractis meddyg teulu yn y clwstwr. Adroddwyd y map Clwstwr a ddefnyddiwyd ym mis Hydref 2022. Gall clystyrau newid ac efallai na ellir eu cymharu'n uniongyrchol â chyhoeddiadau blaenorol y Rhaglen Mesur Plant.

Roedd y sail resymegol dros ddata ar lefel Clwstwr Gofal Sylfaenol yn seiliedig ar gyfyngiadau data 2021/22 a'r cyfle i ddarparu allbwn sy'n berthnasol i gynllunwyr Gofal Sylfaenol. Rydym wedi cadw allbwn y Clwstwr Gofal Sylfaenol eleni am ddau reswm. Yn gyntaf, nid yw data lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) ar gael o hyd gan fod dadansoddiadau MSOA yn gofyn am 5 mlynedd o ddata treigl i gynnwys niferoedd digonol o blant. Gan fod Clystyrau Gofal Sylfaenol yn ardaloedd daearyddol mwy nag MSOAs, roedd modd darparu crynodebau gyda gwerth blwyddyn o ddata. Yn ail, mae uned ddaearyddol Clwstwr Gofal Sylfaenol yn cael ei chydnabod gan ddarparwyr Gofal Sylfaenol o fewn Byrddau Iechyd Lleol, ac mae'r adborth yn dilyn y peilot wedi awgrymu y croesewir y data hwn i gefnogi nodi anghenion y boblogaeth a darpariaeth gwasanaethau bosibl.

## *Dadansoddiadau*

Cyfrifwyd cyfraddau cyffredinrwydd gan ddefnyddio'r canraddau mynegai màs y corff (BMI) sy'n benodol i oedran a rhyw a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfeirnod twf 1990 Prydain (UK90) (o ddull a gynigiwyd gan Cole et al 1995, a ddyfynnwyd yn Dinsdale et al, 2011). Cyfrifwyd y cyfyngau hyder 95% (CH 95%) ar gyfer y cyfraddau cyffredinrwydd gan ddefnyddio dull a gynigiwyd gan Wilson et al, 1927, a ddyfynnwyd yn Altman, 2000. Cyfrifwyd mynegai màs y corff (BMI) gan ddefnyddio dull a gynigiwyd gan Keys et al (1972). Mae'r trothwyon categorïau pwysau clinigol canlynol wedi'u neilltuo at ddibenion gwyliadwriaeth:

- dan bwysau: llai na'r ail ganradd, ond heb gynnwys yr ail ganradd.
- pwysau iach: o'r ail ganradd hyd at yr 85ain ganradd, ond heb gynnwys yr 85ain ganradd.
- dros bwysau: o'r 85ain ganradd hyd at y 95ain ganradd, ond heb gynnwys y 95ain ganradd.

- gordew: y 95ain ganradd ac uwch.

Rhoddir y canlyniadau yn fformat cyfran (%) y garfan, ac yna'r cyfwng hyder 95% cyfatebol (CH 95%) mewn cromfachau. Y garfan yw cyfanswm y plant a fesurwyd sy'n byw yn y rhanbarth daearyddol yr adroddir y data penodol ar ei gyfer, er enghraifft, mae adroddiadau BILlau yn cynnwys canlyniadau'r holl blant sy'n byw yn y BILl hwnnw. Diffiniwyd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol pan nad oedd Cyfyngau Hyder 95% canlyniadau'r cyfrannau cymharol yn gorgyffwrdd. Fodd bynnag, ni ellir cymryd yn ganiataol bod y ffaith bod Cyfyngau Hyder 95% yn gorgyffwrdd yn golygu nad oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol. Byddai hyn yn gofyn am ddadansoddiadau ystadegol pellach i gymharu cyfrannau â chyfyngau hyder 95% sy'n gorgyffwrdd. Roedd y dadansoddiadau hyn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

Gwnaethom gymariaethau ar lefel genedlaethol, lle bo'n berthnasol, gyda'r adroddiad blaenorol diweddaraf gyda chwmpas Cymru gyfan: data 2018/19. Ar gyfer BILlau heblaw Cwm Taf Morgannwg (CTM), gwnaed cymariaethau â data 2021/22. Gwnaed cymariaethau hefyd ar lefel Cymru gyfan ag adroddiad Lloegr a'r Alban.

## *Cyfyngiadau*

Adroddir cyfyngiadau ar ddata'r Rhaglen Mesur Plant yn gyffredinol yn y ddogfen 'Rhaglen Mesur Plant Cymru: hanes, fframwaith deddfwriaethol ac agweddau technegol' a'r 'datganiad ansawdd data'. Mae'r rhain ar gael ar y wefan ochr yn ochr â'r adroddiad. Rhestrir cyfyngiadau sy'n benodol i adroddiad eleni fel a ganlyn:

- Gan nad oedd digon o ddata ar gyfer adroddiad ystadegau swyddogol 2019/20 ac mai data cyfyngedig a adroddwyd ar gyfer blynyddoedd 2020/21 a 2021/22, mae bwlch data o hyd o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Felly, nid yw dadansoddiadau sy'n seiliedig ar adroddiadau 5 mlynedd, megis mynd i'r afael â'r lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA), ar gael.

- Nid yw'r dangosfwrdd rhyngweithiol wedi'i ddiweddaru eto. Fodd bynnag, mae'r gwaith diweddaru wedi cychwyn ac rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn sydd i ddod.

- Rydym wedi darparu dadansoddiad o amddifadedd ar lefel BILl, ond mae'r niferoedd ar gyfer rhai categorïau o gwintelau yn isel.

- Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn fesur amddifadedd sy'n seiliedig ar leoedd a dylid ei ystyried fel brasamcan, neu'r ateb gorau, pan gaiff ei gymhwyso i unigolion. Y rheswm am hyn yw y gall unigolion sy'n byw mewn cod post sy'n gysylltiedig â lefelau is o amddifadedd fod yn byw mewn aelwyd a fyddai'n cael ei chategoreiddio fel aelwyd â lefelau uwch o amddifadedd, ac i'r gwrthwyneb.

- Ar gyfer pob rhanbarth BILl, rydym wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y bwlch cymharol mewn amddifadedd dros amser, gan gymharu'r cwintelau â'r amddifadedd lleiaf a'r amddifadedd mwyaf. Er ei bod yn rhesymol ystyried y newidiadau yn y bwlch amddifadedd

- cymharol o fewn y BILl, ni ddylid defnyddio'r rhain i gymharu rhwng rhanbarthau BILl. Mae hyn oherwydd bod amddifadedd o fewn ardaloedd daearyddol yn seiliedig ar broffilio epidemiolegol y boblogaeth sy'n preswylio yn y rhanbarth.

- Cyfyngwyd ar adrodd data ethnigrwydd i lefel Cymru gyfan oherwydd y niferoedd bach mewn rhai categorïau. Rhaid i'r data hwn gael ei ddehongli'n ofalus gan ei bod yn annhebygol y bydd cyfranogiad gan grwpiau ethnig yn unffurf ledled Cymru oherwydd amrywiadau yn nemograffeg poblogaeth. Dylai timau lleol ystyried y canlyniadau hyn yng nghyd-destun gwybodaeth leol am eu demograffeg poblogaeth. Nid yw trothwyon torbwynt BMI wedi'u haddasu ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig.

- Data Clystyrau Gofal Sylfaenol yw'r 'ateb gorau' a adeiladwyd o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd wedi'u mapio i'r clwstwr lle mae'r nifer uchaf o breswylwyr wedi'u cofrestru i bractis meddyg teulu yn y clwstwr.

- Ar lefel Clwstwr Gofal Sylfaenol, dylid nodi bod y canlyniadau hyn yn seiliedig ar flwyddyn yn unig o gasglu data ac mae'r niferoedd mewn rhai is-gategorïau yn isel.

- Mae mapiau thematig y Clystyrau Gofal Sylfaenol a ddarperir ar gyfer pob BILl yn Rhan 2 o'r adroddiad yn defnyddio ystodau cyfrannau gwahanol ar gyfer y categorïau lliw. Felly, ni ddylid cymharu'r mapiau hyn rhwng rhanbarthau BILl.

- Datgelodd y data a adroddwyd ar gyfer 2020/21 ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) gynnydd mawr yng nghyfrannau'r plant gordew yn y rhanbarthau hyn. Dylid nodi nad yw data dilynol yn darparu tystiolaeth y naill ffordd na'r llall am lwybrau plant unigol a oedd wedi'u cynnwys yng ngharfan 2020/21. Mewn geiriau eraill, nid ydym yn gwybod a fydd carfan 2020/21 wedi cadw lefelau uwch o ordewdra wrth iddynt heneiddio. Nid yw mesuriadau dilynol o'r un plant ar oedrannau hŷn yn cael eu gwneud yng Nghymru ar hyn o bryd.

## *Adroddiadau Ymgysylltu a Chanlyniadau*

Mae rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn taflen wybodaeth yn esbonio'r rhaglen fesur. Mae'r taflenni'n ddwyieithog ac fe'u cyflwynir naill ai fel copïau caled neu ar ffurf cyfathrebu digidol yn dibynnu ar leoliad.

Mae tîm y Rhaglen Mesur Plant yn cyfarfod â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym maes Iechyd Cyhoeddus a Nyrsio Ysgolion yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, gan ganiatáu i ganlyniadau'r Rhaglen Mesur Plant gael eu cyfathrebu ac i adborth gan randdeiliaid gael ei dderbyn. Mae'r tîm hefyd yn ymgysylltu â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru drwy sawl fforwm, gan gynnwys cyfarfodydd misol Arweinwyr Nyrsio Ysgolion a chyfarfodydd neu sesiynau cyfnewid cyfathrebiadau ad hoc pwrpasol. Mae data'r Rhaglen Mesur Plant hefyd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfodydd strategol Pwysau Iach: Cymru Iach pan fyddant yn cael eu cynnal.

Mae'r adroddiad a'r cynhyrchion ar gael i'r cyhoedd ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ffurf datganiad ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd ymlaen llaw. Cyhoeddir crynodeb neu

ganfyddiadau allweddol yr adroddiad hwn ar ddechrau'r adroddiad ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd mewn mannau eraill yn yr adroddiad. Fe'u cyhoeddir hefyd fel testun HTML ar y wefan i gefnogi hygyrchedd. Gellir ystyried yr adran canfyddiadau allweddol fel y crynodeb gweithredol hefyd.

Cawsom adborth y llynedd nad oedd pob agwedd ar yr adroddiad yn defnyddio iaith 'y person yn gyntaf'. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi parhau ar ein taith i ffwrdd o'r arddull wyddonol draddodiadol o ysgrifennu tuag at ddull mwy cyffredinol, gan gynnwys iaith y person yn gyntaf. Fodd bynnag, o ystyried natur y data hwn, mae angen parhau i roi sylw i'r elfennau gwyddonol, er enghraifft, tynnu sylw at wahaniaethau ystadegol arwyddocaol.

Nid yw'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion. Rhagwelir y gellir triongli'r data a adroddir yma â ffynonellau data a gwybodaeth eraill gan y Llywodraeth, sefydliadau perthnasol ac unigolion i helpu i lywio polisïau a rhaglenni rheoli pwysau.



© 2023. Provided by Impact on Urban Health licensed via a CC BY-NC-ND 4.0 license

## Rhan 1: Allbynnau Cyffredinol

### Lefel Cymru


Cafodd bron i 30,000 o blant eu mesur, gan arwain at gyfran cyfranogiad o 91.5%, sydd ychydig yn is na'r gyfran cyn y pandemig pan arhosodd y cyfranogiad yn uwch na 93% rhwng 2014/15 a 2018/19. Roedd y cyfranogiad yn amrywio ychydig rhwng bechgyn a merched, gyda chyfranogiad o 90.9% a 92.1% yn y drefn honno. Optiodd ychydig dros 200 o blant allan o'r rhaglen.

Ar lefel Cymru gyfan, roedd cyfran y plant o dan bwysau yn 0.9% (CH 95% 0.8-1.0), sydd ychydig yn uwch na'r 0.7% (CH 95% 0.6-0.8) a adroddwyd cyn y pandemig yn 2018/19. Fodd bynnag, o edrych yn ôl ymhellach, roedd y gyfran yn 0.8% yn 2017/18, sy'n dangos amrywiadau bach flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol â'r niferoedd cymharol isel o blant a nodwyd yn y categori hwn.

Cyfran y plant â phwysau iach oedd 74.3% (CH 95% 73.8-74.8). Roedd hyn yn sylweddol uwch na chyn y pandemig, gyda chyfran o 72.4% (CH 95% 71.9-72.9) wedi'i hadrodd yn 2018/19.

Y gyfran dros bwysau ac yn ordew oedd 13.4% (CH 95% 13.0-13.8) a 11.4% (CH 95% 11.1-11.8) yn y drefn honno. Roedd y cyfrannau hyn yn sylweddol is yn ystadegol na'r cyfrannau a oedd dros bwysau ac yn ordew, sef 14.4% (CH 95% 14.0-14.8) a 12.6% (CH 95% 12.2-12.9) yn y drefn honno a adroddwyd yn 2018/19. Dangosir y duedd yng nghyfran y plant gordew dros amser yn Ffigur 1. Er bod y gyfran ledled Cymru yn is na chyn y pandemig, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniad hwn o ystyried y data coll yn ystod y pandemig a'r ffaith mai dim ond un pwynt data sydd ar ôl y pandemig. Mae hyn yn golygu na allwn fod yn hyderus eto bod hwn yn duedd.

Ffigur 1:




## Cymhariaeth â Lloegr a'r Alban

Yn gyffredinol, nododd data 2022/23 ar gyfer Lloegr (y Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol) fod cyfran is o blant yn ordew (9.2%) o gymharu â Chymru (11.4%). Mae'n anoddach dehongli cymariaethau â'r Alban gan fod plant fel arfer yn dechrau ysgol pan fyddant sawl mis yn hŷn nag yng Nghymru a Lloegr (Mynegai Màs y Corff plant Cynradd 1 yn yr Alban, Blwyddyn Ysgol 2022/23). Ar gyfer 2022/23, nododd yr Alban hefyd fod cyfran is yn wynebu risg o ordewdra (10.5%) o gymharu â Chymru. Fodd bynnag, roedd y duedd yn debyg gyda'r tair gwlad yn nodi gostyngiad yn y gyfran sy'n ordew yn ôl i lawr i tua'r lefelau cyn y pandemig. Ar adeg ysgrifennu'r hwn, nid oedd Adroddiad Ystadegol Gogledd Iwerddon ar Iechyd Plant ar gyfer 2022/23 ar gael eto.

## Rhyw

Roedd cyfran y bechgyn a'r merched a oedd dros bwysau yn debyg, sef 13.3% (CH 95% 12.7-13.8) a 13.5% (CH 95% 12.9-14.0) yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched ar gyfer categorïau pwysau eraill. Fel y gwelwyd hefyd cyn y pandemig, yn ystadegol roedd llawer llai o ferched yn cael eu mesur fel eu bod dan bwysau (0.6%, CH 95% 0.5-0.7) o gymharu â bechgyn (1.2%, CH 95% 1.1-1.4). Mesurwyd bod cyfran lai o fechgyn â phwysau iach (73.6%, CH 95% 72.9-74.3) o gymharu â merched (75.0%, CH 95% 74.3-75.7). Adroddwyd bod mwy o fechgyn yn ordew (11.9%, CH 95% 11.4-12.4) o gymharu â merched (10.9%, CH 95% 10.4-

11.4). Gwelwyd y patrymau hyn rhwng merched a bechgyn mewn perthynas â phwysau iach a gordewdra cyn y pandemig hefyd.

## *Amddifadedd*

Mae data amddifadedd wedi'i grynhoi yn Nhabl 1. Roedd cyfranogiad yn amrywio yn ôl cwintel amddifadedd, gyda phatrwm tebyg i'w weld ar gyfer bechgyn a merched. Ni welwyd unrhyw duedd rhwng amddifadedd a'r categori 'dan bwysau'. Fodd bynnag, roedd amddifadedd cynyddol yn gysylltiedig â gostyngiad yng nghyfran y plant â phwysau iach a chynnydd cyfatebol yng nghyfrannau'r plant sydd dros bwysau ac yn ordew.

Roedd plant yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf yn llawer llai tebygol yn ystadegol o fod â phwysau iach o gymharu â'r rhai yn y pumedau canol i'r lleiaf amddifad. Roedd plant yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf yn llawer llai tebygol yn ystadegol o fod dros bwysau o gymharu â'r rhai yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf a'r ail bumed â'r amddifadedd mwyaf. Roedd plant yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf yn llai tebygol yn ystadegol o fod yn ordew o gymharu â phob pumed amddifadedd arall.


Wrth ystyried amddifadedd yn ôl rhyw, roedd bechgyn a merched yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf yn llawer mwy tebygol yn ystadegol o fod â phwysau iach. I fechgyn, roedd tuedd gynyddol yn y gyfran a oedd dros bwysau wrth i amddifadedd gynyddu. Roedd merched yn y pumedau â'r amddifadedd mwyaf a'r ail bumed â'r amddifadedd mwyaf yn llawer mwy tebygol yn ystadegol o fod dros bwysau (14.3, CH 95% 13.2-15.5 a 14.6, CH 95% 13.4-16.0 yn y drefn honno) o gymharu â'r pumed â'r amddifadedd lleiaf (11.9%, CH 95% 10.7-13.1). Ar gyfer bechgyn, roedd y gyfran a oedd yn ordew yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf (8.2%, CH 95% 7.2-9.2) yn sylweddol is yn ystadegol nag ar gyfer pob pumed amddifadedd arall. Cynyddodd y gyfran gydag amddifadedd cynyddol nes iddi gyrraedd 14.6% (CH 95% 13.5-15.8). Gwelwyd yr un patrwm hwn ar gyfer merched, gyda chyfran y plant gordew yn codi o 7.5% (CH 95% 6.6-8.6) yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf i 12.4% (CH 95% 11.4-13.6) yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf.

Mae'r duedd amser yn y bwlch amddifadedd rhwng y pumedau â'r amddifadedd  lleiaf a mwyaf yn Ffigur 2. Roedd y bwlch amddifadedd, fel yr adlewyrchir gan y gymhareb gyfradd, wedi cynyddu rhwng 2013/14 ac ychydig cyn y pandemig yn 2018/19. Mae'r bwlch presennol (2022/23) yn debyg i'r bwlch a arsylwyd yn 2018/19. Dylid bod yn ofalus wrth adolygu'r duedd gan fod tair blynedd o ddata ar goll.

Tabl 1: Crynodeb o Ddata Amddifadedd Lefel Cymru, Plant 4-5 oed, Rhaglen Mesur Plant 2022/23

| *Pumed amddifadedd* | *Cyfranogiad* | *Cyfran Pwysau Iach, CH 95%* | | *Cyfran Dros Bwysau, CH 95%* | | *Cyfran Gordew, CH 95%* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pumed â'r amddifadedd lleiaf | 92.3% | 79.4% | (78.3-80.5) | 11.8% | (11.0-12.7) | 7.8% | (7.1-8.6) |
| Ail bumed â'r amddifadedd lleiaf | 92.1% | 75.6% | (74.4-76.7) | 12.9% | (12.0-13.8) | 10.6% | (9.8-11.4) |
| Pumed canol | 91.8% | 73.8% | (72.7-74.9) | 13.6% | (12.7-14.5) | 11.6% | (10.8-12.5) |
| Ail bumed â'r amddifadedd mwyaf | 91.0% | 72.6% | (71.4-73.7) | 14.0% | (13.1-14.9) | 12.7% | (11.9-13.6) |
| Pumed â'r amddifadedd mwyaf | 90.6% | 71.2% | (70.2-72.2) | 14.2% | (13.4-15.0) | 13.6% | (12.8-14.4) |

Ffigur 2:



## *Ethnigrwydd*

Mae'r data ethnigrwydd wedi'i grynhoi ar lefel Cymru gyfan yn Nhabl 2. O ystyried y niferoedd isel o blant mewn categorïau fel 'dan bwysau', cyfunwyd rhai categorïau. Cafodd dros hanner y garfan eu categoreiddio fel 'Gwyn' a chafodd dros draean eu categoreiddio fel 'Anhysbys'. Dim ond 6% o gyfanswm y garfan a oedd wedi'u categoreiddio o fewn y categorïau ethnigrwydd eraill.

Roedd cyfran sylweddol uwch yn ystadegol o blant a oedd wedi'u categoreiddio fel 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig' â phwysau iach neu dan bwysau o gymharu â'r rhai a oedd wedi'u categoreiddio fel 'Gwyn' neu 'Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd'. Ar y llaw arall, roedd cyfrannau'r plant 'Gwyn' neu 'Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd' sydd dros bwysau neu'n ordew yn sylweddol uwch yn ystadegol na chyfran y plant 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig' yn y categori hwn. Roedd gan blant a oedd wedi'u categoreiddio fel 'Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd' gyfran sylweddol uwch yn ystadegol o blant wedi'u categoreiddio fel plant gordew o gymharu â phlant 'Gwyn'. Dylid dehongli'r canlyniadau hyn yn ofalus o ystyried y niferoedd isel o blant mewn rhai grwpiau.

**Tabl 2:** Crynodeb o Ddata Ethnigrwydd ar Lefel Cymru, Plant 4-5 oed, Rhaglen Mesur Plant 2022/23

| *Ethnigrwydd* | *Cyfran o'r garfan* | *Cyfran Pwysau Iach neu Dan Bwysau, CH 95%* | | *Cyfran Dros Bwysau neu Ordew, CH 95%* | | *Cyfran Gordew, CH 95%* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 57.2% | 74.9% | (74.2-75.5) | 25.1% | (24.5-25.8) | 11.5% | (11.1-12.0) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 2.2% | 80.9% | (77.7-83.7) | 19.1% | (16.3-22.3) | 12.3% | (10.0-15.1) |
| Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.8% | 70.7% | (64.6-76.0) | 29.3% | (24.0-35.4) | 17.4% | (13.1-22.6) |
| Grwpiau cymysg neu aml-ethnig | 2.3% | 78.5% | (75.3-81.4) | 21.5% | (18.6-24.7) | 11.2% | (9.1-13.8) |
| Grŵp ethnig arall | 0.7% | 73.8% | (67.6-79.3) | 26.2% | (20.7-32.4) | 15.0% | (10.8-20.3) |
| Anhysbys | 36.8% | 75.2% | (74.4-76.0) | 24.8% | (24.0-25.6) | 11.0% | (10.5-11.6) |

## *Gwledig*


Roedd cyfrannau'r plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai â 'phwysau iach neu dan bwysau' neu wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau neu'n ordew' yn debyg, 75.2% a 24.8% yn y drefn

honno, waeth pa mor wledig oedd yr ardaloedd. Wrth ystyried 'gordewdra' yn unig, roedd y gyfran a oedd yn ordew mewn ardaloedd trefol yn uwch, sef 11.7% (CH 95% 11.3-12.1), o gymharu â'r gyfran mewn ardaloedd gwledig, sef 10.8% (CH 95% 10.1-11.4).

## Cymariaethau ar Lefel Byrddau Iechyd Lleol


Mae'r dadansoddiad 9.3% (CH ar gyfer cyfran y plant gordew yn ôl BILl yn Ffigur 3. Mae'r gyfran yn amrywio o 95% 8.6-10.2) yng Nghaerdydd a'r Fro i 12.9% (CH 95% 11.9-13.9) yng Nghwm Taf Morgannwg. Roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. At hynny, nodwyd bod cyfran y plant gordew yng Nghaerdydd a'r Fro yn sylweddol is yn ystadegol na chyfartaledd Cymru, o gymharu â chyfran sylweddol uwch yn ystadegol na chyfartaledd Cymru yng Nghwm Taf Morgannwg.

Ffigur 3:





Caerdydd a'r Fro oedd â'r gyfran isaf o blant a oedd 'dros bwysau neu'n ordew' hefyd, sef 21.2% (CH 95% 20.1-22.4). Hywel Dda oedd â'r gyfran uchaf, sef 28.9% (CH 95% 27.4-30.4), gan nodi ei fod yn sylweddol uwch yn ystadegol na Chaerdydd a'r Fro a chyfartaledd Cymru. Gweler Ffigur 4.

Ffigur 4:




Dangosodd pob Bwrdd Iechyd dueddiadau amddifadedd tebyg, gyda chyfrannau uwch o blant a oedd dros bwysau neu'n ordew yn y pumedau â'r amddifadedd mwyaf o gymharu â'r pumedau â'r amddifadedd lleiaf, gweler siart Ffigur 5. Roedd y gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol yn BIPBC, CTM, Caerdydd a'r Fro a BIPAB.


Ffigur 5:





## Cymariaethau ar Lefel Awdurdodau Lleol

Mae'r dadansoddiad ar gyfer plant gordew yn ôl rhanbarth ALl yn cael ei roi ar ffurf graffig ac ar ffurf map thematig yn Ffigurau 6 a 7 yn y drefn honno. Roedd gwahaniaethau clir yng nghyfran y plant gordew rhwng rhanbarthau ALl o fewn yr un ôl troed BILl. Amlygir hyn gan yr amrywiad ledled Cymru o 7.9% (CH 95% 6.2-9.9) yn Sir Fynwy i 14.3% (CH 95% 12.0-17.1) ym Mlaenau Gwent. Roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd cyfrannau'r plant gordew yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy yn sylweddol is yn ystadegol na chyfartaledd Cymru. Roedd cyfran y plant gordew yn Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf yn sylweddol uwch yn ystadegol na chyfartaledd Cymru.

Ffigur 6:



Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Rhaglen Mesur Plant,
Cymru ac awdurdodau lleol, 2022/23
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
Cyfwng hyder 95%
Cymru, 11.4
Ynys Môn 11.2
Gwynedd 12.3
Conwy 12.8
Sir Ddinbych 12.1
Sir y Fflint 10.9
Wrecsam 13.4
Powys 9.9
Ceredigion 10.6
Sir Benfro 10.9
Sir Gaerfyrddin 14.1
Abertawe 11.9
Castell-nedd Port Talbot 11.7
Bro Morgannwg 8.3
Caerdydd 9.7
Rhondda Cynon Taf 13.8
Merthyr Tudful 13.6
Pen-y-bont ar Ogwr 11.0
Caerffili 10.6
Blaenau Gwent 14.3
Torfaen 10.7
Sir Fynwy 7.9
Casnewydd 11.2

Ffigur 7:




Rhoddir cyfrannau'r plant sydd dros bwysau neu'n ordew yn ôl Awdurdod Lleol yn siart Ffigur 8 a map Ffigur 9. Roedd cyfrannau'n amrywio o 18.6% (CH 95% 16.1-21.5) yn Sir Fynwy i 29.4% (CH 95% 25.9-33.1) ym Merthyr. Roedd y rhain yn sylweddol is ac uwch yn ystadegol na chyfartaledd Cymru yn y drefn honno.


Ffigur 8:



Canran y plant 4 i 5 oed gyda dros bwysau neu'n ordew,
Rhaglen Mesur Plant, Cymru ac awdurdodau lleol, 2022/23
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
Cyfwng hyder 95%
Cymru, 24.8
Ynys Môn 25.7
Gwynedd 23.7
Conwy 26.8
Sir Ddinbych 27.4
Sir y Fflint 24.3
Wrecsam 28.1
Powys 22.0
Ceredigion 25.9
Sir Benfro 27.9
Sir Gaerfyrddin 30.5
Abertawe 24.3
Castell-nedd Port Talbot 27.5
Bro Morgannwg 22.0
Caerdydd 20.9
Rhondda Cynon Taf 28.2
Merthyr Tudful 29.4
Pen-y-bont ar Ogwr 23.7
Caerffili 23.0
Blaenau Gwent 26.6
Torfaen 25.4
Sir Fynwy 18.6
Casnewydd 22.1

Ffigur 9:

**Canran y plant 4 i 5 oed gyda dros bwysau neu'n ordew, awdurdodau lleol, Cymru, Rhaglen Mesur Plant, 2022/23**




Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)


© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Arolwg Ordnans 2024

# Rhan 2: Adroddiadau Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr


Roedd y gyfran cyfranogiad gyffredinol yn 91.2% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), bron yn ôl i'r lefel cyn y pandemig sef 94.8% ar gyfer 2018/19 yn dilyn lefel is na'r arfer o 75.2% y llynedd wrth i'r rhaglen adfer. Roedd union nifer y plant a oedd wedi optio allan o'r rhaglen yn rhy isel i'w adrodd. Roedd y gyfran cyfranogiad yn amrywio rhywfaint yn ôl rhanbarthau Awdurdod Lleol: Ynys Môn 91.2%, Gwynedd 89.8%; Conwy 92.2%; Sir Ddinbych 94%; Sir y Fflint 92.5%; Wrecsam 88.1%.

*Dan bwysau a phwysau iach*
Roedd nifer y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn cynrychioli 0.6% (CH 95% 0.4-0.8) o'r garfan. Roedd y gyfran hon yn debyg i'r gyfran o 0.5% (CH 95% 0.4-0.8) a adroddwyd ar gyfer 2021/22 a 0.7% (CH 95% 0.6-95% 72.4-74.6). Roedd hyn yn uwch na'r gyfran o 71.9% (CH 95% 70.7-73.1) a arsylwyd yn 2021/22 ac yn sylweddol uwch yn ystadegol na'r hyn a welwyd cyn y pandemig, sef 70.7% (CH 95% 69.6 i 71.8) a arsylwyd yn 2018/2019.

*Dros bwysau ond nid yn ordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai dros bwysau ond nid yn ordew oedd 13.8% (CH 95% 13.0-14.7). Roedd y canlyniad hwn ychydig yn is o gymharu â'r 14.4% (CH 95% 13.5-15.3) a arsylwyd yn 2021/22 ac yn sylweddol is yn ystadegol na'r ffigur cyn y pandemig yn 2018/19, sef 15.9% (CH 95% 15.1-

*Gordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew oedd 12.1% (CH 95% 11.4-13.0). Roedd y canlyniad hwn ychydig yn is na'r 13.2% (CH 95% 12.3-14.1) a adroddwyd y llynedd a'r 12.8% (CH 95% 12.0 i 13.6) a adroddwyd yn 2018/19. Gweler Ffigur 10 ar gyfer y duedd amser.

Ffigur 10:





*Rhyw*
Ar lefel BIP, roedd cyfran y bechgyn a'r merched a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' yn debyg, sef 13.8% (CH 95% 12.7-15.1) a 13.8% (CH 95% 12.6-15.0) yn y drefn honno. Roedd hyn yn wahanol i'r arsylwad a wnaed y llynedd a ddangosodd gyfran sylweddol uwch yn ystadegol o fechgyn a oedd 'dros bwysau ond nid yn ordew', sef 15.7% (CH 95% 14.4-17.1), o gymharu ag 13.0% (CH 95% 11.7-14.3) ar gyfer merched. Ar gyfer y categori 'dros bwysau ond nid yn ordew', dilynodd yr ALlau yr un patrwm heblaw am Sir Ddinbych a ddangosodd gyfran o 17.6% (CH 95% 14.4-21.3) ar gyfer merched o gymharu ag 13.1% (CH 95% 10.3-16.4) ar gyfer bechgyn. Er hynny, roedd y CH 95% yn eang ac yn gorgyffwrdd, sy'n awgrymu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniad hwn.

Roedd y gyfran a oedd yn ordew ar lefel BILl yn uwch ar gyfer bechgyn o gymharu â merched, sef 13.1% (CH 95% 12.0-14.3) ac 11.2% (CH 95% 10.1-12.3) yn y drefn honno. Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer yr ALlau ac eithrio Ynys Môn a adroddodd gyfran ychydig yn uwch o ferched gordew, sef 11.4% (CH 95% 8.5-15.3) o gymharu â bechgyn, sef 10.9% (CH 95% 7.9-14.9).

*Amddifadedd*
Ar lefel BILl, roedd cyfran sylweddol uwch yn ystadegol a oedd wedi'u categoreiddio fel gordew yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf (13.9%, CH 95% 12.3-15.6) o gymharu â'r cwintel â'r amddifadedd lleiaf (9.3%, CH 95% 7.8-11.2). Roedd patrymau'n llai clir ar lefel ALl, ond dylid bod yn ofalus wrth ddehongli data ALl o ystyried y niferoedd isel o achosion ym mhob categori. Dangosir cyfrannau'r plant gordew yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn y cwintelau â'r

amddifadedd mwyaf dros amser yn Ffigur 11. Mae'r gymhareb gyfradd yn darparu amcangyfrif cymharol ar gyfer y bwlch rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf amddifad. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y bwlch dros amser, ond mae'n ymddangos bod y bwlch hwn wedi lleihau yn 2022/23 o gymharu â'r llynedd a'r adroddiadau diweddaraf cyn y pandemig. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniad hwn gan nad oes digon o arsylwadau data ar ôl y pandemig eto i gadarnhau tueddiadau.


Ffigur 11:




*Clystyrau Gofal Sylfaenol*

Roedd gan bob Clwstwr Gofal Sylfaenol o fewn ôl troed BIPBC gyfran o 86% o leiaf. Roedd cyfran y plant gordew yn amrywio fel y dangosir yn y map thematig (Ffigur 12). Roedd y gyfran a oedd yn ordew yn amrywio o 9.6% (CH 95% 7.3-12.4) yn Ne Sir y Fflint i 16.1% (CH 95% 13.1-19.7) yng Ngorllewin Conwy.

Ffigur 12:



Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Clystyrau Gofal Sylfaenol, BIP Betsi Cadwaladr,
Rhaglen Mesur Plant, 2022/23
Clystyrau gofal sylfaenol, canrannau
> 14.8 - 16.1 [1]
> 13.5 - 14.8 [1]
> 12.2 - 13.5 [5]
> 10.9 - 12.2 [2]
9.6 - 10.9 [5]
Ffin clystyrau gofal sylfaenol
Clystyrau Gofal Sylfaenol Hydref 2022.
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Arolwg Ordnans 2024

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys


Y gyfran cyfranogiad gyffredinol oedd 89.2% ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP), sef yr un ôl troed daearyddol ag ALl Powys. Roedd y cyfranogiad yn is na'r 92.1% a gafwyd yn 2021/22 a'r 93% a gyflawnwyd yn 2018/19. Roedd 10 (0.8%) o blant wedi optio allan o'r rhaglen.

*Dan bwysau a phwysau iach*
Roedd nifer y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn cynrychioli 0.8% (CH 95% 0.4-1.5). Roedd y gyfran hon yn debyg i'r gyfran a adroddwyd yn 2018/19, sef 0.7% (CH 95% 0.4 i 1.4). Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach oedd 77.2% (CH 95% 74.6-79.7), a oedd yn uwch na'r 75.5% (CH 95% 72.8-78.0) a adroddwyd y llynedd ac yn sylweddol uwch yn ystadegol na'r gyfran o 71.1% (CH 95% 68.4 i 73.7) a arsylwyd yn 2018/19.

*Dros bwysau ond nid yn ordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' oedd 12.1% (CH 95% 10.3-14.2) ac ychydig yn is na'r cyfrannau a welwyd y llynedd, sef 13.5% (CH 95% 11.6-15.7) a chyn y pandemig, sef 13.9% (CH 95% 12.0 i 16.1) yn 2018-2019.

*Gordew*
Roedd cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew yn 9.9% (CH 95% 8.2-11.8), ychydig yn is o gymharu â chyfran y llynedd, sef 10.6 (CH 95% 8.8-12.6) ac yn sylweddol is yn ystadegol o gymharu â 14.2% (CH 95% 12.3 i 16.4) a adroddwyd yn 2018/19. Mae'r duedd amser i'w gweld yn Ffigur 13. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r duedd gan mai dim ond dau arsylwad ers y pandemig sydd ar gael hyd yma.


Ffigur 13:




*Rhyw*
Roedd y cyfrannau ar draws categorïau mesur pwysau gyda niferoedd digonol o blant i'w cymharu yn debyg ar gyfer bechgyn a merched ym Mhowys.

*Amddifadedd*
Ar gyfer Powys, mae niferoedd isel o blant ym mhob categori. Cyfrannau'r plant gordew yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf oedd 6.6% (CH 95% 4.0-10.8) yn erbyn 13.6% (CH 95% 9.9-18.4) yn y drefn honno. Dangosir y tueddiadau amser yn Ffigur 14. Mae'r gymhareb gyfradd yn darparu amcangyfrif cymharol ar gyfer y bwlch rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf amddifad. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y bwlch dros amser, gyda'r bylchau mwy wedi'u nodi ar gyfer blynyddoedd 2014/15 a 2015/16 gan leihau wedi hynny i'r arsylwad diwethaf cyn y pandemig yn 2018/19. Roedd mesuriad y llynedd yn 2021/22 yn dal i fod yn gyson ag arsylwad 2018/19. Fodd bynnag, mae'r bwlch wedi cynyddu eto eleni. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r arsylwad hwn gan fod nifer y plant ym mhob categori yn is nag ar gyfer y BILlau eraill, felly mae disgwyl mwy o amrywiadau. Ar ben hynny, dim ond dau fesuriad ers y pandemig sydd ar gael hyd yma.


Ffigur 14:




*Clystyrau Gofal Sylfaenol*

Roedd y gyfran cyfranogiad o leiaf 86% ar gyfer pob Clwstwr Gofal Sylfaenol. Roedd cyfran y plant gordew yn amrywio rhywfaint rhwng y clystyrau gofal sylfaenol, fel y dangosir yn y map thematig (Ffigur 15), gydag ystod o 8.9% (CH 95% 6.7-11.6) yng Ngogledd Powys i 10.9% yng Nghanolbarth a De Powys (CH 95% 7.4-15.6 ac 8.1-14.5 yn y drefn honno).

Ffigur 15:


Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Clystyrau Gofal Sylfaenol, BIA Powys, Rhaglen Mesur Plant, 2022/23
Clystyrau gofal sylfaenol, canrannau
> 10.5 - 10.9 [2]
> 10.1 - 10.5 [0]
> 9.7 - 10.1 [0]
> 9.3 - 9.7 [0]
8.9 - 9.3 [1]
Ffin clystyrau gofal sylfaenol
Clystyrau Gofal Sylfaenol Hydref 2022.
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Arolwg Ordnans 2024

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda


Y gyfran cyfranogiad gyffredinol oedd 93% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd), i fyny o 88.2% y llynedd, ond heb ddychwelyd i'r 95.8% a adroddwyd ar gyfer 2018/19. Roedd 26 (0.7%) o blant wedi optio allan o'r rhaglen, sydd ychydig yn uwch na'r 7 (0.2%) y llynedd. Roedd y dadansoddiad o'r gyfran cyfranogiad yn ôl rhanbarthau ALlau fel a ganlyn: Ceredigion 93.7%; Sir Benfro 92.4%; Sir Gaerfyrddin 93.1%.

*Dan bwysau a phwysau iach*
Roedd nifer y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn cynrychioli 0.7% (CH 95% 0.5-1.0), yn debyg i gyfran y llynedd, sef 0.6% (CH 95% 0.4-0.9). Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach oedd 70.5% (CH 95% 68.9-72.0), sydd hefyd yn debyg i gyfran y llynedd, sef 70.3% (CH 95% 68.7-71.8), ac yn debyg i'r gyfran cyn y pandemig, sef 70.6% (CH 95% 69.1 i 72.0) yn 2018/19.

*Dros bwysau ond nid yn ordew*
Roedd cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' ychydig yn uwch, sef 16.4% (CH 95% 15.2-17.7), o gymharu â 15.6% (CH 95% 14.4-16.9) y llynedd, ac roedd yn debyg i'r gyfran o 16.2% (CH 95% 15.0 i 17.4) a welwyd cyn y pandemig yn adroddiad 2018/19.

*Gordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew oedd 12.5% (CH 95% 11.4-13.6), sy'n is na'r gyfran o 13.6 (CH 95% 12.5-14.8) a adroddwyd y llynedd. Dangosir y tuedd amser yn Ffigur 16 ond, gyda dim ond dau bwynt data ers y pandemig hyd yma, mae'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau cadarn. Ar lefel ALl, roedd y gyfran a oedd yn ordew yn Sir Gaerfyrddin yn uwch, sef 14.1% (CH 95% 12.5-15.8) o gymharu â'r ddau ALl arall.


Ffigur 16:



*Rhyw*
Roedd y rhan fwyaf o gyfrannau ar draws categorïau mesur pwysau yn debyg ar gyfer bechgyn a merched ar lefel BILl. Fodd bynnag, roedd y gyfran a oedd yn ordew yn uwch ar gyfer bechgyn o gymharu â merched, sef 13.3% (CH 95% 11.8-15.0) yn erbyn 11.6% (CH 95% 10.2-13.3) yn y drefn honno.


*Amddifadedd*
Ar lefel BILl, cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf oedd 13.2% (CH 95% 11.1- 15.8) o gymharu ag 11.8% (CH 95% 9.5-14.5) yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf. Dangosir cyfrannau'r plant gordew yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf dros amser yn Ffigur 17. Mae'r gymhareb gyfradd yn darparu amcangyfrif cymharol ar gyfer y bwlch rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf amddifad. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y bwlch dros amser, gyda'r bwlch yn amlwg yn lledu y llynedd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y bwlch wedi cau eto yn 2022/23. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniad hwn gan mai dim ond dau bwynt data sydd gennym ers y pandemig.

Ffigur 17:




*Clystyrau Gofal Sylfaenol*
Roedd y cyfranogiad o leiaf 92% ar gyfer pob Clwstwr Gofal Sylfaenol. Roedd cyfran y plant gordew yn amrywio ar draws clystyrau gofal sylfaenol, fel y dangosir yn y map thematig (Ffigur 18) gydag ystod o 9.4% (CH 95% 7.1-12.5) yn Ne Sir Benfro i 14.1% (CH 95% 11.5- 17.1) yn Aman/Gwendraeth.

Ffigur 18:


Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Clystyrau Gofal Sylfaenol, BIP Hywel Dda, Rhaglen Mesur Plant, 2022/23
Clystyrau gofal sylfaenol, canrannau
> 13.2 - 14.1 [3]
> 12.2 - 13.2 [2]
> 11.3 - 12.2 [0]
> 10.3 - 11.3 [0]
9.4 - 10.3 [2]
Ffin clystyrau gofal sylfaenol
Clystyrau Gofal Sylfaenol Hydref 2022.
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Arolwg Ordnans 2024

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe


Y gyfran cyfranogiad gyffredinol oedd 90.8% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA), yn debyg i gyfran y llynedd, sef 90.5%. Ar gyfer rhanbarthau ALl Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, y cyfrannau cyfranogiad oedd 90.2% a 91.9% yn y drefn honno. Roedd union nifer y plant a oedd wedi optio allan o'r rhaglen yn rhy isel i'w adrodd. Nid yw'r cyfranogiad wedi cyrraedd y gyfran cyn y pandemig, sef 95.4% a gyflawnwyd yn 2018/19.

*Dan bwysau a phwysau iach*
Roedd nifer y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn union yr un fath â'r llynedd, sef 0.8% (CH 95% 0.5-1.1) o'r garfan. Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach oedd 73.8% (CH 95% 72.3-75.2). Roedd hyn yn uwch na'r 71.0% (CH 95% 69.5-72.4) a welwyd y llynedd.

*Dros bwysau ond nid yn ordew*
Roedd cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' ychydig yn is, sef 13.7% (CH 95% 12.6-14.8) o gymharu â 14.2% (CH 95% 13.0-15.3) y llynedd. Roedd y gyfran a oedd dros bwysau ond nid yn ordew yn 2022/23 yn uwch yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef 15.8% (CH 95% 13.9-17.8) o gymharu ag Abertawe, sef 12.5% (CH 95% 11.2-13.9).

*Gordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew oedd 11.8% (CH 95% 10.8-12.9). Roedd hyn yn sylweddol is yn ystadegol na chyfran y llynedd, sef 14.1% (CH 95% 13.0-15.3). Roedd hefyd yn is na'r gyfran a adroddwyd cyn y pandemig, sef 13.0% (CH 95% 12.0 i 14.1) yn 2018/19. Mae'r duedd amser i'w gweld yn Ffigur 19. Mae'n ymddangos bod y duedd o 2020/21 yn ostyngiad mawr. Fodd bynnag, roedd arsylwadau 2020/21 yn ystod y pandemig lle nodwyd cynnydd yng nghyfrannau'r plant gordew. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r duedd hon ers y pandemig hyd nes y bydd arsylwadau data pellach yn cael eu hychwanegu yn y blynyddoedd i ddod.


Ffigur 19:




*Rhyw*
Roedd y cyfrannau ar draws categorïau mesur pwysau yn debyg ar gyfer bechgyn a merched ar lefel BILl. Fodd bynnag, roedd cyfran y bechgyn gordew ychydig yn uwch, sef 12.6% (CH 95% 11.1-14.1) o gymharu â merched, sef 11% (CH 95% 9.6-12.5).

*Amddifadedd*
Ar lefelau BILl ac ALl, roedd tuedd bod cyfran uwch o blant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf o gymharu â'r cwintel â'r amddifadedd lleiaf. Ar lefel ALl Abertawe, roedd y duedd hon yn ystadegol arwyddocaol, gydag 8.5% (CH 95% 6.1-11.7) yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn 14.5% (CH 95% 11.9-17.5) yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf. Dangosir cyfrannau'r plant gordew yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf dros amser yn Ffigur 20. Mae'r gymhareb gyfradd yn darparu amcangyfrif cymharol ar gyfer y bwlch rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf amddifad. Roedd amrywiaeth yn y bwlch cymharol dros amser, gyda'r bwlch cymharol mwyaf yn cael ei weld yn y mesur cyn y pandemig yn 2018/19. Roedd y bwlch cymharol a arsylwyd yn 2020/21 yn is na chyn y pandemig, gyda gostyngiad pellach ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, nodwyd bod y bwlch wedi lledu ychydig eleni (2022/23). O ystyried yr amrywiad blaenorol a'r pwyntiau data cyfyngedig ar ôl y pandemig, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn.


Ffigur 20:




*Clystyrau Gofal Sylfaenol*

Roedd cyfran y plant gordew yn amrywio ar draws clystyrau gofal sylfaenol, fel y dangosir yn y map thematig (Ffigur 21), gydag ystod o 8.3% (CH 95% 6.3- 11.1) yn Iechyd y Bae i 15.8% (CH 95% 12.6-19.5) ym Mhenderi. Roedd hwn yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol.

Ffigur 21:



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg


Hon oedd y flwyddyn adrodd gyntaf i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) ers y flwyddyn cyn y pandemig, sef 2018/19. Y gyfran cyfranogiad gyffredinol oedd 89.5% ar draws BIPCTM, sy'n is na'r 95.5% a welwyd cyn y pandemig yn 2018/19. Roedd y cyfranogiad yn ôl rhanbarth ALl fel a ganlyn: Rhondda Cynon Taf 89.6%; Merthyr Tudful 86.3%; Pen-y-bont ar Ogwr 90.7%. Nifer y plant a oedd wedi optio allan o'r rhaglen oedd 12 (0.3%).

*Dan bwysau a phwysau iach*
Roedd nifer y plant a oedd yn cael eu categoreiddio fel rhai dan bwysau yn fach, sef 1% (CH 95% 0.8-1.4) o'r garfan. Roedd hyn yn uwch na'r 0.4% (CH 95% 0.2-0.8) a arsylwyd yn 2018/19. Fodd bynnag, dylid dehongli hyn yng nghyd-destun y niferoedd isel o blant yn y categori hwn. Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach oedd 72.0% (CH 95% 70.7-73.3). Roedd hyn yn uwch na'r 69.4% (CH 95% 67.5-71.2) a arsylwyd yn 2018/19.

*Dros bwysau ond nid yn ordew*
Roedd cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' ychydig yn is, sef 14.1% (CH 95% 13.1-15.1) o gymharu â'r 15.0% (CH 95% 13.6-16.5) a arsylwyd yn 2018/19. Roedd cyfran y plant a oedd dros bwysau ond nid yn ordew yn uwch ym Merthyr Tudful, sef 15.8% (CH 95% 13.1-18.9) o gymharu â'r ddau ALl arall.

*Gordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew oedd 12.9% (CH 95% 11.9-13.9). Roedd hyn yn is na'r 15.2% (CH 95% 13.8-16.7) a arsylwyd yn 2018/19. Mae'r duedd amser i'w gweld yn Ffigur 22. Roedd tuedd ar i fyny cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae arsylwadau 2022/23 yn is. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli hyn gan mai dim ond un arsylwad sydd wedi bod ers y pandemig.


Ffigur 22:




*Rhyw*
Roedd y cyfrannau ar draws categorïau mesur pwysau yn debyg ar gyfer bechgyn a merched ar lefel BILl. Fodd bynnag, roedd cyfran y bechgyn gordew ychydig yn uwch, sef 13.9% (CH 95% 12.6-15.5) o gymharu â merched, sef 11.7% (CH 95% 10.4-13.2).

*Amddifadedd*
Ar lefelau BILl ac ALl, roedd tuedd bod cyfran uwch o blant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf o gymharu â'r cwintel â'r amddifadedd lleiaf. Ar lefel BIPCTM, roedd hyn yn ystadegol arwyddocaol, gyda 9.5% (CH 95% 7.8-11.6) yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn 15.4% (CH 95% 13.3-17.9) yn y cwintelau mwyaf amddifad. Ar lefel ALl Pen-y-bont ar Ogwr, roedd y duedd hon hefyd yn ystadegol arwyddocaol, gyda 5.6% (CH 95% 3.4-9.2) yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn 14.8% (CH 95% 11.2-19.3) yn y cwintelau mwyaf amddifad. Dangosir cyfrannau'r plant gordew yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf dros amser yn Ffigur 23. Mae'r gymhareb gyfradd yn darparu amcangyfrif cymharol ar gyfer y bwlch rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf amddifad. Cyn y pandemig, roedd amrywiaeth yn y bwlch cymharol dros amser, gyda'r bwlch cymharol mwyaf wedi'i weld yn 2017/18. Mae bwlch 2022/23 a welwyd nawr yn debyg i'r bwlch cyn y pandemig a nodwyd yn 2018/19.


Ffigur 23:




*Clystyrau Gofal Sylfaenol*

Roedd cyfran y plant gordew yn amrywio ar draws clystyrau gofal sylfaenol, fel y dangosir yn y map thematig (Ffigur 24), gydag ystod o 9.1% (CH 95% 7.3-11.3) yn Rhwydwaith Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr i 16.3% (CH 95% 12.8-20.5) yng Ngogledd Rhondda. Roedd hwn yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol.

Figure 24:


Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Clystyrau Gofal Sylfaenol, BIP Cwm Taf Morgannwg, Rhaglen Mesur Plant, 2022/23
Clystyrau gofal sylfaenol, canrannau
> 14.9 - 16.3 [3]
> 13.4 - 14.9 [2]
> 12.0 - 13.4 [4]
> 10.5 - 12.0 [1]
9.1 - 10.5 [1]
Ffin clystyrau gofal sylfaenol
Clystyrau Gofal Sylfaenol Hydref 2022.
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Arolwg Ordnans 2024

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Roedd y gyfran cyfranogiad gyffredinol yn 90.6% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF), i fyny o 72.1% y llynedd ac yn uwch na'r 82.7% yn 2018/19. Roedd 12 (0.2%) o blant wedi optio allan o'r rhaglen, sy'n is na'r 23 (0.4%) y llynedd. Roedd y dadansoddiad o'r gyfran cyfranogiad yn ôl rhanbarthau ALl fel a ganlyn: Bro Morgannwg 90.4%; Caerdydd 90.6%.

*Dan bwysau a phwysau iach*
Roedd nifer y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn union yr un fath â'r llynedd, sef 1.3% (CH 95% 1.0-1.7) o'r garfan. Roedd y gyfran hon yn debyg i ddata 2018/19, sef 1.4% (CH 95% 1.1 i 1.8). Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach oedd 77.5% (CH 95% 76.3-78.6) ac roedd yn sylweddol uwch yn ystadegol na chyfran y llynedd, sef 74.6% (CH 95% 73.2-75.9).


*Dros bwysau ond nid yn ordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' oedd 11.9% (CH 95% 11-12.8). Roedd y canlyniad hwn ychydig yn is na'r llynedd, sef 13.0% (CH 95% 12.0-14.1), ac yn debyg i'r canlyniad cyn y pandemig yn 2018/19, sef 11.7% (CH 95% 10.8 i 12.6).

*Gordew*
Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew oedd 9.3% (CH 95% 8.6-10.2). Roedd hyn yn is nag a welwyd y llynedd, sef 11.1% (CH 95% 10.2-12.2), a chyn y pandemig, sef 10.2% (CH 95% 9.4-11.1) a adroddwyd yn 2018/19. Mae'r duedd amser i'w gweld yn Ffigur 25. Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cwymp ar ôl y pandemig gan mai dim ond dau bwynt data sydd i gael.

Ffigur 25:

**Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Rhaglen Mesur Plant, BIP Caerdydd a'r Fro, 2013/14 - 2022/23***

Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)





*Effeithiwyd yn ddifrifol ar adrodd am y Rhaglen Mesur Plant oherwydd y pandemig COVID-19. Nid oes data ar gael ar gyfer pob cyfnod.

*Rhyw*
Roedd y cyfrannau ar draws yr holl gategorïau mesur pwysau yn debyg ar gyfer bechgyn a merched ar lefelau BILl ac ALl. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth yng nghyfran y plant gordew yn rhanbarth ALl Bro Morgannwg, gyda chyfran uwch o ferched, sef 9.2% (CH 95% 7.3-11.6) o gymharu â bechgyn, sef 7.4% (CH 95% 5.6-9.7) wedi'u categoreiddio fel rhai gordew.

*Amddifadedd*
Ar lefel Bwrdd Iechyd, roedd cyfran sylweddol uwch yn ystadegol a oedd wedi'u categoreiddio fel gordew yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf (12.3%, CH 95% 10.6-14.2) o gymharu â'r cwintel â'r amddifadedd lleiaf (5.1%, CH 95% 3.9-6.8). Gwelwyd tuedd debyg ar gyfer yr ardaloedd Awdurdod Lleol, a oedd yn ystadegol arwyddocaol i Gaerdydd: 4.7% (CH 95% 3.4-6.5) yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn 13.4% (CH 95% 11.4-15.6) yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf. Dangosir cyfrannau'r plant gordew yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf dros amser yn Ffigur 26. Mae'r gymhareb gyfradd yn darparu amcangyfrif cymharol ar gyfer y bwlch rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf amddifad. Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn y bwlch dros amser. Roedd y bwlch wedi lledu ers 2018/19 ac fe arhosodd yn llydan yn 2021/22. Fodd bynnag, mae wedi lleihau rhywfaint eleni. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiad hwn gan mai dim ond dau bwynt data sydd gennym ers y pandemig.

Ffigur 26:


**Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Rhaglen Mesur Plant, BIP Caerdydd a'r Fro yn ôl y pumed amddifadedd mwyaf a lleiaf, 2013/14 - 2022/23***
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC), MALIC 2019 (LIC)




*Effeithiwyd yn ddifrifol ar adrodd am y Rhaglen Mesur Plant oherwydd y pandemig COVID-19. Nid oes data ar gael ar gyfer pob cyfnod.

*Clystyrau Gofal Sylfaenol*
Ar gyfer y clystyrau gofal sylfaenol hynny sydd â chwmpas digonol, roedd cyfran y plant gordew yn amrywio, fel y dangosir yn y map thematig (Ffigur 27), gydag ystod o 6.9% (CH  95% 4.5-10.3) yn Nwyrain y Fro i 12.7% (CH 95% 10.4-15.5) yn Nwyrain Caerdydd. Roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol.

Ffigur 27:


Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Clystyrau Gofal Sylfaenol, BIP Caerdydd a'r Fro, Rhaglen Mesur Plant, 2022/23
Clystyrau gofal sylfaenol, canrannau
> 11.5 - 12.7 [3]
> 10.4 - 11.5 [0]
> 9.2 - 10.4 [1]
> 8.1 - 9.2 [1]
6.9 - 8.1 [4]
Ffin clystyrau gofal sylfaenol
Clystyrau Gofal Sylfaenol Hydref 2022.
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Arolwg Ordnans 2024

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Y gyfran cyfranogiad gyffredinol oedd 94.0% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), yn debyg i'r 93.7% a gyflawnwyd y llynedd. Roedd 137 (2.1%) o blant wedi optio allan o'r rhaglen. Roedd y gyfran optio allan hefyd yn uchel y llynedd, sef 127 (1.9%). Mae hyn yn golygu bod nifer fawr wedi optio allan o gymharu â phob rhanbarth BILl arall, ac maent yn cyfrif am 66.2% o'r holl achosion o optio allan ledled Cymru. Roedd y dadansoddiad o'r gyfran cyfranogiad yn ôl rhanbarthau ALl fel a ganlyn: Caerffili 94.5%, Blaenau Gwent 94.9%; Torfaen 95.1%; Sir Fynwy 93.8%; Casnewydd (92.9%.

*Dan bwysau a phwysau iach*

Roedd nifer y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn cynrychioli 1.2% (CH 95% 0.9-1.5) o'r garfan. Roedd y gyfran hon yn debyg i'r 0.9% (CH 95% 0.7-1.2) a welwyd y llynedd. Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach oedd 75.7% (CH 95% 74.8-76.9). Roedd hyn yn sylweddol uwch yn ystadegol na'r 73.2% (CH 95% 72.1-74.3) a welwyd y llynedd.


*Dros bwysau ond nid yn ordew*

Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' oedd 12.1% (CH 95% 11.3-12.9), sydd ychydig yn is na chyfran y llynedd, sef 12.9% (CH 95% 12.1-13.8). Roedd cyfran y plant a oedd 'dros bwysau ond nid yn ordew' yn Nhorfaen, sef 14.7% (CH 95% 12.6-17), yn sylweddol uwch yn ystadegol na'r hyn a arsylwyd yng Nghasnewydd, sef 10.9% (CH 95% 9.5-12.4).

*Gordew*

Cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew oedd 10.9% (CH 95% 10.1-11.7), sy'n sylweddol is yn ystadegol na'r gyfran o 12.9% (CH 95% 12.1-13.8) a welwyd y llynedd. Mae hefyd yn is na'r gyfran cyn y pandemig, sef 11.8% (CH 95% 11.0 i 12.6) a adroddwyd yn 2018/19. Mae'r duedd amser i'w gweld yn Ffigur 28. Mae'n ymddangos bod y duedd o 2020/21 yn ostyngiad mawr. Fodd bynnag, roedd arsylwadau 2020/21 yn ystod y pandemig lle nodwyd cynnydd yng nghyfrannau'r plant gordew. Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r duedd hon ar ôl y pandemig hyd nes y bydd arsylwadau data pellach yn cael eu hychwanegu yn y blynyddoedd i ddod.


Ffigur 28:




*Rhyw*
Roedd y cyfrannau ar draws yr holl gategorïau mesur pwysau yn debyg ar gyfer bechgyn a merched ar lefel BILl. Gwelwyd rhai gwahaniaethau bach ar lefel ALl. Gellir gweld y rhain yn y tablau data sydd ar gael ar wefan y Rhaglen Mesur Plant.

*Amddifadedd*
Ar lefel Bwrdd Iechyd, roedd cyfran y plant gordew yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yn sylweddol is yn ystadegol, sef 7.1% (CH 95% 5.7-8.8), o gymharu â'r cwintel â'r amddifadedd mwyaf, sef 14% (CH 95% 12.3-15.9). Nodwyd patrwm tebyg ar gyfer pob rhanbarth ALl, gyda gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol hefyd yn cael ei arsylwi ar gyfer Caerffili (6%, CH 95% 4-8.9 o gymharu â 13.3%, CH 95% 10.3-17) a Chasnewydd (6.3%, CH 95% 3.9-10.1 o gymharu â 14%, CH 95% 11-17.6). Dangosir cyfrannau'r plant gordew yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn erbyn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf dros amser yn Ffigur 29. Mae'r gymhareb gyfradd yn darparu amcangyfrif cymharol ar gyfer y bwlch rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf amddifad. Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn y bwlch dros amser cyn y pandemig. I ddechrau, ar ôl y pandemig nid oedd yn ymddangos bod y bwlch hwn wedi lledu. Fodd bynnag, mae arsylwadau 2022/23 wedi dangos bwlch ehangach. Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiad hwn gan nad oes digon o bwyntiau data eto i gadarnhau tuedd.


Ffigur 29:




*Clystyrau Gofal Sylfaenol*

Roedd cyfran y plant gordew yn amrywio ar draws clystyrau gofal sylfaenol, fel y dangosir yn y map thematig (Ffigur 30), gydag ystod o 7.0% (CH 95% 4.9-10.0) yn Ne Sir Fynwy i 15.1% (CH 95% 11.8-19.1) yng Ngorllewin Blaenau Gwent. Roedd hwn yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol.

Ffigur 30:


Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Clystyrau Gofal Sylfaenol, BIP Aneurin Bevan, Rhaglen Mesur Plant, 2022/23
Clystyrau gofal sylfaenol, canrannau
> 13.5 - 15.1 [2]
> 11.9 - 13.5 [1]
> 10.2 - 11.9 [3]
> 8.6 - 10.2 [3]
7.0 - 8.6 [2]
Ffin clystyrau gofal sylfaenol
Clystyrau Gofal Sylfaenol Hydref 2022.
Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata, yr Arolwg Ordnans 2024

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad o'r mesuriadau plant a gymerwyd ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant yng Nghymru. Mae gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar ffurf tablau ar ein gwefan yn Rhaglen Mesur Plant GIG Cymru. Ar gyfer ymholiadau penodol y tu hwnt i'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein, gellir cysylltu â'r tîm drwy e-bost yn publichealth.cmp@wales.nhs.uk Am ragor o wybodaeth am fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, ewch i wefan Gwella Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: https://pobplentyn.cymru/ a dilynwch y ddolen i'r wybodaeth "10 cam at bwysau iach".

## Cyfeiriadau


Altman DG et al (2000) Statistics with confidence.2nd ed. BMJ Books: Llundain. tt46.

Dinsdale H, Ridler C ac Ells LJ (2011) A simple guide to classifying body mass index in children. Rhydychen: National Obesity Observatory.

Keys A et al (1972) Indices of relative weight and obesity. J Chronic Dis 25:329-43.

National Child Measurement Programme England 2022/23 School Year, NHS England. Ar gael yn: National Child Measurement Programme - NHS England Digital

Primary 1 Body Mass Index (BMI) statistics Scotland – School year 2022 to 2023, Public Health Scotland. Ar gael yma: Primary 1 Body Mass Index (BMI) statistics Scotland - School year 2022 to 2023 - Primary 1 Body Mass Index (BMI) statistics Scotland - Publications - Public Health Scotland

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, StatsCymru, Llywodraeth Cymru. Gwybodaeth ar gael yn: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (llyw.cymru)




© 2023. Provided by Impact on Urban Health licensed via a CC BY-NC-ND 4.0 license

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales